


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Wrexham Dental Works, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ebrill 2026

Dyddiad cyhoeddi: 31 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-092-0

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	6
2. Crynodeb o'r arolygiad	7
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	12
Ansawdd Profiad y Claf	12
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	22
4. Y camau nesaf.....	26
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	28
Atodiad C – Cynllun gwella	30



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Wrexham Dental Works, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30 Ebrill 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn Wrexham Dental Works yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd y safle'n cynnig amgylchedd dymunol y tu mewn a'r tu allan, gyda digon o le parcio ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael mynediad at ofal arferol a brys yn hwylus naill ai drwy ofal y GIG neu drwy ofal preifat. Roedd y lleoliad yn darparu deintyddiaeth gyffredinol, gofal orthodontig arbenigol ac yn darparu triniaeth arbenigol ar gyfer mewnbaniadau deintyddol.

Mae dau lawr yn y practis. Mae gan y llawr gwaelod un ddeintyddfa cynllun agored fawr gyda thair cadair ddeintyddol, pob un wedi'i gwahanu gan sgriniau preifat. Mae gan y llawr cyntaf ddwy ddeintyddfa wedi'u teilwra: un ar gyfer mewnbaniadau a deintyddiaeth gyffredinol, ac un ar gyfer triniaeth orthodontig. Roedd pob clinig wedi'i leoli i ddiogelu preifatrwydd y cleifion ac roedd mynediad hygyrch i'r llawr gwaelod.

Roedd amgylchedd y practis yn dawel, yn hamddenol, yn lân ac yn cael ei reoli'n dda, a oedd yn gwneud i'r cleifion deimlo'n gyfforddus ac yn helpu i leihau unrhyw bryder posibl yn ystod eu hymweliad. Roedd tystiolaeth glir i'w gweld bod y staff yn gwrando ar feddyliau a syniadau'r cleifion ar gyfer gwella.

Roedd seddi cyfforddus yn yr ardal aros fawr ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, gyda sgrin deledu fawr yn dangos rhaglenni sy'n addas ar gyfer plant.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion, ac roedd cynhyrchion deintyddol ar werth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael eu cyfarch yn Gymraeg ac yn Saesneg er nad oedd rhai

aelodau o'r staff yn gallu siarad Cymraeg neu'n dysgu.

- Roedd yr holl wybodaeth am driniaethau ar gael yn hawdd i gleifion ar bapur neu'n ddi-bapur.
- Staff cyfeillgar a hawdd mynd atynt.
- Sianeli Disney i blant.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Wrexham Dental Works yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.

Roedd mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr. Roedd yr asesiadau risg yn cwmpasu diogelwch tân, ystyriaethau amgylcheddol, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch. Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal i safon uchel yn fewnol ac yn allanol, yn cynnwys cyfarpar a oedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, ac nid oedd unrhyw beryglon.

Roedd protocolau atal a rheoli heintiau wedi cael eu rhoi ar waith yn effeithiol, a oedd yn cael eu hategu gan bolisi cynhwysfawr ac archwiliadau rheolaidd. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu cynnal yn gyson, ac roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael yn hawdd.

Yn ogystal, gwelwyd lifft cludo nwyddau electronig bach rhwng lloriau, a oedd yn golygu bod modd i'r staff gludo cyfarpar a photeli dŵr trwm yn ddiogel o'r llawr gwaelod i'r llawr cyntaf.

Roedd polisïau, gweithdrefnau a siartiau llif diogelu ar gael i arwain y staff. Roedd tystiolaeth glir i ddangos bod yr holl bersonél wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gwnaethant ddangos dealltwriaeth weithredol o'r broses ar gyfer nodi pryderon diogelu.

Gwelsom fod gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-x, ac roedd sganiwr CBCT mewnol ar gael. Fodd bynnag, gwnaethom nodi un pryder wrth edrych ar y deintyddfeydd, sef bod y cyfanelwr siâp petryal wedi cael ei symud o'r cyfarpar pelydr-X ac wedi'i osod i'r naill ochr i'w lanhau. Trafodwyd hyn â'r prif ddeintydd a wnaeth newidiadau ar unwaith. Aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn ystod ein harolygiad. Roedd yr holl gyfarpar yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar adfywio cardiopwlmonaidd, ac roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n ddiogel gydag archwiliadau wythnosol wedi'u hamserlennu. I ddechrau, roedd y silindr ocsigen yn sefyll yn annibynnol mewn gorchudd meddal; gwnaethom argymhell ei fod yn cael ei roi mewn stand diogel, a rhoddwyd y mesur hwn ar waith yn ystod ein harolygiad.

Roedd cofnodion clinigol yn cael eu cadw ac roeddent o safon dda iawn ar adeg ein harolygiad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn fawr, yn olau, yn cynnwys digonedd o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Roedd iechyd, diogelwch a llesiant y staff yn cael eu cefnogi drwy gludo offer a hydoddiannau trwm o gwmpas y practis yn ddiogel gan ddefnyddio'r lifft.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi bod y practis yn elwa ar drefniadau arweinyddiaeth effeithiol a llinellau atebolrwydd clir. Roedd perchennog y practis a'r prif ddeintydd yn dangos ymrwymiad parhaus i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd y tîm o staff yn cynnwys tri deintydd, therapydd a hylenydd, rheolwr y practis a nyrs arweiniol a gefnogwyd yn fedrus gan dîm o ddwy nyrs ddeintyddol gofrestredig, tair nyrs dan hyfforddiant a derbynnydd.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal i safon briodol, gyda thystiolaeth bod yr hyfforddiant yn gyfredol ac yn cyd-fynd â'r gofynion rheoliadol perthnasol. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd cyfres gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd, gan gynnwys cylch adolygu blynyddol lle y bo'n gymwys. Roedd y practis yn defnyddio systemau electronig yn effeithiol i gefnogi'r gwaith o oruchwyllo'r gwasanaeth a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Dywedodd y staff fod cyfleoedd dysgu a datblygu priodol ar gael iddynt i'w helpu i gyflawni eu rolau, a gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff wedi'u cwblhau. Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol yn ddigonol i gynnal cyfrinachedd y cleifion a chefnogi cydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau rheoli effeithiol yn y practis
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cadw'n dda
- Roedd hyfforddiant y staff yn gyfredol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ymatebodd deg claf i holiadur AGIC, ac roedd yr holl sylwadau'n gadarnhaol. Roedd pawb a ymatebodd yn fodlon ar lendid y practis ac yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas, gofal a pharch.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Maen nhw'n dda iawn ac yn gyfeillgar iawn.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd digon o wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis i'w hannog i fyw'n iach ac i gynnal iechyd y geg da. Gwelsom bosteri yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys rhoi'r gorau i smygu, bwyta'n iach, hylendid y geg a byw gyda ffrâm ddannedd orthodontig. Roedd gwybodaeth ychwanegol hefyd wedi'i darparu ar ffurf poster darluniadol mewn perthynas â'r defnydd o belydrau-X yn y practis ac adnabod arwyddion sepsis. Gwnaethom ystyried bod hyn yn enghraifft o arfer da, yn enwedig o gofio proffil oedran ifanc y grŵp cleifion.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn hawdd yn yr ardal aros ar gais ac roedd cryn dipyn o wybodaeth ar gael ar-lein hefyd. Dywedodd y staff wrthym y gallent argraffu gwybodaeth o wefan y practis ar gais neu ei hanfon drwy e-bost at gleifion at eu defnydd personol. Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben cyfredol a oedd yn cael ei arddangos.

Roedd arwyddion 'dim smygu na fepio' wedi'u harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi preifatrwydd cleifion. Roedd tair cadair ddeintyddol yn yr ardal glinigol cynllun agored fawr ar y llawr gwaelod a oedd yn cael eu defnyddio gan yr hylenydd a'r therapydd gan mwyaf. Gofynnwyd i'r cleifion cyn eu hapwyntiad a

oeddent yn hapus i fod mewn ystafell drin cynllun agored. Roedd y gadair yn y canol yn cael ei defnyddio gan y prif ddeintydd os oedd angen deintyddfa hygyrch ar y llawr gwaelod ar glaf. Gwelsom ddau glaf yn cael eu trin ar yr un pryd, y ddau yn blant yng nghwmni eu rhieni. Ni ellid clywed sgysiau er bod y cadeiriau'n agos at ei gilydd. Roedd pared Perspex rhwng pob cadair ac roedd sgriniau preifatrwydd untro ychwanegol ar gael os oedd angen. Roedd gan bob ystafell glinigol ar y llawr gwaelod ddrysau solet i ddiogelu preifatrwydd y cleifion yn yr ardaloedd clinigol hynny.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur, a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, eu bod wedi cael eu trin mewn ffordd garedig a gydag urddas a pharch gan staff y practis. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod triniaethau yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod apwyntiadau mewn ffordd y gallent ei deall.

Yn ystod ein harsylwadau, gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Roedd y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a chymwynasgar. Roedd drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau.

Gwelsom fod Naw Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol i'w gweld ar y llawr gwaelod ac ar y llawr cyntaf. Roedd yr ardaloedd aros ar y llawr gwaelod ac ar y llawr cyntaf yn edrych union yr un peth ac yn cynnig yr un amwynderau.

Roedd enwau'r deintyddion, eu rolau a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis. Yn ogystal, roedd enwau'r staff clinigol a'u manylion cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos i'r cleifion allu eu gweld.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Mewn ymateb i holiadur AGIC i gleifion, dywedodd yr holl ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Dywedodd pob un ohonynt wrthym fod eu hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gael pob sesiwn o driniaeth.

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth sydd ar gael. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod y costau wedi cael eu hesbonio cyn y driniaeth; ond nododd y rhan fwyaf nad oedd tâl oherwydd eu hoedran. Gwelsom hefyd fod ffioedd ar gyfer triniaethau preifat yn cael eu harddangos.

Gwelsom fod prosesau cynllunio triniaethau a thrafodaethau ynghylch opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi i safon uchel yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom ar y diwrnod.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r adeilad a'u bod wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion hefyd.

Dywedodd staff y dderbynfa wrthym y byddai cleifion yn cael gwybod ar lafar am unrhyw oedi i amseroedd apwyntiadau ac y byddent yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu, lle y bo'n briodol. Dywedwyd wrthym mai prin oedd yr achosion o oedi.

Cadarnhaodd y staff fod capasiti ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys yn amserlen ddyddiol pob deintydd a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol y cleifion. Roedd rhestr ar gyfer apwyntiadau wedi'u canslo yn cael ei chadw i sicrhau bod slotiau apwyntiadau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn brysur yn y bore, gyda grŵp o gleifion iau yn mynychu apwyntiadau hylenydd, a bod sesiwn y prynhawn wedi'i chlustnodi'n bennaf i gynlluniau triniaeth cleifion y GIG.

Roedd rhifau ffôn ar gyfer cael gofal brys y tu allan i'r oriau agor arferol, i gleifion y GIG a chleifion preifat, ar gael y tu allan i adeilad y practis ac roeddent wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y rhai a ymatebodd i'r holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth y tu allan i oriau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r practis. Roedd modd adnabod y staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg neu a oedd yn dysgu Cymraeg, yn glir. Gwelsom staff yn sgwrsio â chleifion yn Gymraeg a nodwyd bod cleifion yn cael cynnig dewis iaith lle y bo modd.

Roedd gan y practis dîm sefydledig a oedd yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr am anghenion y cleifion a'u dewisiadau cyfathrebu, ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yng nghofnodion y cleifion. Roedd modd cael deunyddiau gwybodaeth i gleifion yn Saesneg fel bod y deintydd yn gallu cynnig esboniad manwl. Fodd bynnag, roedd taflenni gwybodaeth eraill ar gael mewn gwahanol ieithoedd a gellid eu hargraffu pe bai angen.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r fenter 'Cynnig Rhagweithiol' ac roeddent wedi defnyddio'r cynnig drwy'r bwrdd iechyd lleol.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol a nodweddion gwarchodedig. Gwelsom hefyd fod polisi ar wahân ar waith a oedd yn ymdrin ag anabledd a gwahaniaethu.

Gwelsom fod asesiad o fynediad i bobl anabl wedi cael ei gwblhau. Roedd hwn yn nodi nad oedd grisiau wrth y fynedfa i'r llawr gwaelod a oedd yn addas i gadeiriau olwyn. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod anghenion hygyrchedd yn cael eu trafod â'r cleifion pan fyddai apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn, fel bod modd clustnodi apwyntiadau i'r ddeintyddfa ar y llawr gwaelod lle bo angen.

Dywedodd y staff wrthym fod cleifion nad oeddent yn gallu defnyddio'r grisiau yn cael cynnig apwyntiadau yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cynnwys cyfleuster i gofnodi enwau a rhagenwau a ffeirir.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Roedd gan y practis bolisiau ar waith mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, ansawdd ac addasrwydd yr amgylchedd a chynnal a chadw cyfarpar. Roedd cofnodion manwl o brofion dŵr rheolaidd am Legionella, a gefnogwyd gan broses archwilio.

Roedd tystysgrifau diogelwch cyfredol ar gael ar gyfer profi offer cludadwy (PAT), gosodiadau trydanol a'r cyflenwad nwy, ac ni nodwyd unrhyw broblemau.

Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth mewn perthynas â diogelwch tân, gan gynnwys cofnodion o ymarferion tân a gwiriadau rheolaidd, ynghyd â phrosesau i archwilio a chynnal a chadw'r cyfarpar diogelwch tân. Gwelsom fod arwyddion clir yn dangos y llwybrau dianc, gydag allanfeydd ym mlaen a chefn yr adeilad. Roedd mathau priodol o ddiffoddwyr tân wedi'u gosod yn sownd, roedd arwyddion clir i'w dangos, ac roeddent wedi cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd cyfleusterau newid ar gael i'r staff ynghyd â lle diogel i storio eiddo personol.

Gwelsom fod y toiledau rhywedd cymysg i gleifion, a oedd ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf, yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol ar gael, ynghyd ag uned gwaredu nwyddau mislif.

Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel yn unol â gofynion rheoliadol perthnasol. Roedd dogfennaeth gysylltiedig yn cael ei storio ar yriant a rennir y staff. Ar adeg yr arolygiad, roedd disgwyl i Weithdrefnau'r Cyflogwr gael eu hadolygu'n fuan ond nid oeddent wedi dirwyn i ben; cafodd y rhain eu diweddaru a'u dosbarthu i'r staff yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom nodi bod rhai delweddau pelydr-X yng nghofnodion y cleifion yn dangos toriad côn gydag ymyl grwm, a oedd yn awgrymu nad oedd cyfanelwr siâp petryal wedi'i osod pan ddefnyddiwyd y peiriant. Trafodwyd hyn â'r prif ddeintydd a'n hadolygydd clinigol lle cynigiwyd esboniad bod y cyfanelwr siâp petryal wedi'i dynnu i ffwrdd i'w

lanhau. Pwysleisiwyd y cyfrifoldeb dros sicrhau bod popeth yn ei le ar gyfer pob archwiliad gan y bydd hyn yn sicrhau bod dos ymbelydredd pob radiograff mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol (ALARP). Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn ystod ein harolygiad, ac nid ystyrir ei fod yn enghraifft o ymarfer sefydledig.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau ar waith i gefnogi prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gael a bod amserlen lanhau ar waith. Roedd gan y nyrs arweiniol gyfrifoldeb llawn am reoli heintiau ac am oruchwylio archwiliadau clinigol. Gwnaethom adolygu nifer o archwiliadau a chanfod bod eu cynnwys a'u lefel manylder yn rhagorol.

Gwelsom fod dwy ystafell ddihalogi ddynodedig, un ar y llawr gwaelod ac un ar y llawr cyntaf. Roedd lifft cludo nwyddau wedi'i osod i gludo cyfarpar ac offer rhwng lloriau, gan leihau'r angen i'r staff gario eitemau drwy ddwy ardal aros. Roedd yr ystafelloedd dihalogi'n cael eu defnyddio ar gyfer prosesu a sterileiddio offer deintyddol, yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Dangosodd y staff ddealltwriaeth o'r prosesau dihalogi a sterileiddio, a gwelsom fod y trefniadau a'r wybodaeth archwilio yn dda iawn.

Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau cyfarpar perthnasol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, eu cofnodi a'u harchwilio.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r adeilad mewn ardal â gât a oedd wedi'i chloi.

Gwelsom y staff yn gwisgo ffedogau tafladwy â chod lliw wrth roi triniaeth. Roedd ffedogau o wahanol liwiau ar gael ar gyfer pob ardal glinigol, a oedd yn golygu bod modd adnabod y staff yn hawdd yn ôl deintyddfa. Roedd hyn hefyd yn cynnig amddiffyniad clinigol da ac ystyriwyd bod hyn yn enghraifft o arfer gorau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom adolygu trefniadau rheoli meddyginiaethau'r practis a chanfod bod protocolau ar waith i gefnogi'r gwaith o drin a storio meddyginiaethau'n ddiogel. Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau hyn yn destun archwiliad rheolaidd.

Gwelsom fod pecynnau cymorth cyntaf ar gael a bod gwiriadau'n cael eu cofnodi. Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd a rhoi ocsigen. Gwelsom hefyd fod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwelsom fod y cyfarpar brys yr oedd ei angen i ymateb i ddirywiad sydyn claf mewn cyflwr da ac o fewn y dyddiadau defnyddio. Dywedodd y staff wrthym fod gwiriadau'n cael eu cwblhau'n wythnosol, neu ar ôl defnyddio'r cyfarpar, a bod y cyfarpar wedi'i gynnwys yn rhaglen archwilio'r practis. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y silindr ocsigen wedi'i storio ar stand gynnal ond mewn deunydd cario meddal; aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu cyfredol ar waith ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth o Weithdrefnau Diogelu Cymru a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn defnyddio ap ar eu ffonau symudol.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf ar gyfer oedolion a phlant. Roedd rheolwr y practis ac un o'r prif ddeintyddion yn gweithredu fel arweinwyr diogelu ac roeddent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 3. Roedd aelodau eraill o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at Lefel 2.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion diogelu a gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi codi pryderon ac wedi cysylltu â'r tîm diogelu lleol lle nad oedd cleifion wedi mynychu apwyntiadau ac nad oedd modd cysylltu â nhw. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am broses y practis ar gyfer apwyntiadau a gollwyd, gan gynnwys y ffai

y byddai diffyg presenoldeb dro ar ôl tro heb ganslo yn sbarduno camau dilynol yn unol â'r polisi diogelu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn addas i'w ddefnyddio ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Roedd cofnodion gwasanaethu ar waith i ddangos tystiolaeth o waith cynnal a chadw arferol.

Gwelsom fod rhestr o gyfarpar pelydr-X yn cael ei chadw a bod dogfennaeth ategol, gan gynnwys cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol, ar gael.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd systemau effeithiol ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Disgrifiodd y staff y gweithdrefnau ar gyfer cael a dilyn canllawiau ac argymhellion proffesiynol.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol.

Gwelsom dystiolaeth bod profion sgrinio am ganser y geg wedi'u cynnal a'u cofnodi'n briodol. Nodwyd hefyd fenter gwella ansawdd yn ymwneud â'r asesiad a'r gydberthynas bosibl rhwng fepio a chanser y geg.

Gwelsom fod hanes meddygol y cleifion yn cael ei wirio a'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deg claf a gwelsom fod y broses cadw cofnodion o safon dderbyniol a bod y clinigwyr gwahanol yn dogfennu'n gyson. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llythyrau atgyfeirio'n cael eu storio yng nghofnodion y

cleifion fel mater o drefn, er bod y cod cyfeirio unigryw o'r system atgyfeirio electronig wedi'i gofnodi. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a ddiwygiodd osodiadau'r system i sicrhau bod copïau o atgyfeiriadau'n cael eu derbyn yn awtomatig drwy e-bost a'u cadw yng nghofnodion y cleifion. Cafodd y mater hwn ei ddatrys yn ystod ein harolygiad.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y cyfleusterau yn briodol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol a bod prosesau ar waith i weithredu'r practis yn effeithlon.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cyfleusterau yn y practis yn addas iddynt gyflawni eu dyletswyddau a bod yr amgylchedd yn briodol i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Dywedwyd wrthym fod atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cael eu gwneud yn electronig, ac felly bod modd rhannu gwybodaeth yn effeithlon.

Dywedwyd wrthym hefyd y byddai staff y practis yn mynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau yr ystyriwyd eu bod yn rhai brys, fel amheuon o ganser y geg, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael apwyntiad amserol.

Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y practis yn trefnu i weld cleifion yr oedd angen gofal a thriniaeth frys arnynt o fewn oriau agor arferol er mwyn atal sefyllfa lle y byddai'n rhaid i'r cleifion fynychu gwasanaethau gofal brys neu wasanaethau y tu allan i oriau.

Roedd y practis wedi ennill gwobr yn ddiweddar am ei ffyrdd gwyrdd, moesegol ac effeithlon o weithio. Roedd y tîm yn dangos dulliau cydweithio effeithiol ac yn darparu gofal da i'r cleifion yn rheolaidd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gweithio yn y practis ers ystod o flynyddoedd, sy'n dangos sefydlogrwydd o fewn y tîm. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu rolau a gwnaethant ddisgrifio'r trefniadau hyfforddiant a oedd yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'w rolau. Siaradodd y staff nyrsio yn gadarnhaol am yr hyfforddiant i nyrsys deintyddol a sut roeddent wedi cael eu cefnogi ar y safle i gyflawni eu gofynion hyfforddi.

Roedd adborth y staff yn dangos bod y cyfleusterau a'r amgylchedd gwaith yn addas i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu bodloni gofynion eu rolau a bod ganddynt fynediad at adnoddau priodol, gan gynnwys deunyddiau a chymorth staffio. Roedd y staff o'r farn bod y cymysgedd sgiliau yn y tîm yn briodol, a gwnaethant ddweud bod y systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel ac i wella'n barhaus.

Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, gyda chofnodion yn cael eu dosbarthu a'u llofnodi er mwyn cefnogi prosesau cyfathrebu effeithiol ac i sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd, a oedd yn cynnig cyfle i drafod anghenion datblygu, dilyniant a hyfforddiant.

Gwelsom fod cyfres o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd mesurau cynhwysfawr ar waith o ran cyflogi staff. Roedd polisïau a gweithdrefnau a oedd yn amlinellu'r broses recriwtio a'r protocolau dilysu ar gyfer darpar gyflogaion ar gael i'w hadolygu. Roedd y protocolau hyn yn cynnwys dilysu gwybodaeth adnabod, asesu cymwysterau a brechiadau, a chadarnhad o wiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y practis yn cyflogi staff asiantaeth a staff locwm o bryd i'w gilydd ac roedd yr un prosesau gwirio a dilysu proffesiynol yn cael eu dilyn mewn perthynas â'r staff hyn.

Cadarnhaodd ein hadolygiad o gofnodion pum aelod o'r staff eu bod wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol, yn ogystal â chydymffurfiaeth ddigonol â brechiadau Hepatitis B. Roedd y staff yn bodloni gofynion hyfforddiant gorfodol yn rhagorol, ac roedd y systemau rheoli a oedd yn ategu'r prosesau hyn yn gadarn ac yn effeithiol.

Roedd cyfleoedd hyfforddiant ar gael i'r staff yn gyson ac roeddent yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i gasglu adborth gan y cleifion ac roedd blwch dynodedig ar gael yn yr ardal aros er mwyn casglu sylwadau. Ar ôl cael adborth, byddai'r rheolwr cofrestredig yn ymateb fel y bo'n briodol. Roedd poster 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' wedi'i arddangos a oedd yn cael ei ddiweddarw wrth i wybodaeth gael ei chasglu. Un enghraifft dda o weithredu ar adborth gan gleifion oedd dangos rhaglenni plant ar y teledu yn yr ardal aros. Roedd y practis wedi buddsoddi yn sianel Disney er mwyn darparu rhaglenni addas i blant yn yr ardal aros. Gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arfer da.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, ac roedd poster wedi'i arddangos yn glir i hysbysu'r cleifion am y broses. Cadarnhaodd y staff y gellid darparu copïau o'r weithdrefn ar gais. Roedd y weithdrefn yn amlinellu manylion cyswllt perthnasol,

amserlenni ar gyfer ymateb, a chyfarwyddiadau ar gyfer uwchgyfeirio cwynion lle bo angen.

Roedd y polisi cwyno yn cynnwys gwybodaeth am sefydliadau allanol amrywiol sy'n cefnogi prosesau datrys cwynion ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Dywedodd y staff nad oedd y practis yn cael llawer o gwynion a bod unrhyw gwynion a oedd yn dod i law yn cael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion. Roedd ffeil a chofnodlyfr i'w gweld, a nodwyd themâu gyda manylion clir am y prosesau ar gyfer dysgu o gwynion.

Roedd gan y practis bolisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, ac roedd y staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein yn unol â'r gofynion.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd systemau cyfathrebu effeithiol ar waith er mwyn hwyluso gweithrediadau'r practis. Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, ac roedd y broses yn cyrraedd safonau diogelwch a chyfrinachedd llym. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu cadw'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud fel mater o drefn. Roedd gwybodaeth a oedd yn ymddangos ar sgrin cyfrifiaduron yn gyfrinachol ac yn cael ei diogelu. Roedd polisi diogelu data cynhwysfawr yn hysbysu'r staff am eu cyfrifoldebau o ran diogelu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Cyflwynwyd amrywiaeth o archwiliadau i ni a gynhaliwyd fel rhan o fentrau gwella ansawdd parhaus y practis, gan gynnwys adolygiadau o gofnodion cleifion, radiograffau, mesurau atal a rheoli heintiau, gweithdrefnau dihalogi (a oedd yn cydymffurfio â WHTM 01-05), trefniadau rheoli presgripsiynau, ymdrin â gwastraff clinigol, arferion hylendid dwylo, protocolau iechyd a diogelwch, amseroedd aros, ac

adborth cleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r archwiliadau'n cael eu cefnogi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a gwelsom dystiolaeth bod yr arfer hwn wedi'i wreiddio a'i fod wedi dod yn rhan o weithgarwch pob dydd.

Roedd y cyfarwyddwr/prif ddeintydd wrthi'n casglu data yn ymwneud â sgrinio am ganser y geg a fepio yn ogystal â smygu, fel y nodwyd.

Dangosodd y tîm deintyddol ddull rhagweithiol, gwybodaeth gynhwysfawr, a phroffesiynoldeb, gan ddangos y gallu i nodi a defnyddio ffynonellau priodol i gael cyngor ac arweiniad.

Roedd y practis hwn yn darparu amryw ddulliau effeithiol o roi gofal deintyddol ac yn darparu gwasanaethau i safon uchel.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Wrth edrych ar y deintyddfeydd, nodwyd bod y cyfanelwr siâp petryal wedi cael ei symud o'r cyfarpar pelydr-X ac wedi'i osod i'r naill ochr i'w lanhau.	Gallai hyn olygu bod cleifion yn dod i gysylltiad â lefelau uwch o ymbelydredd ïoneiddio na'r angen ac nid yw hyn yn unol â chanllawiau'r DU.	Trafododd yr adolygydd cymheiriaid clinigol y mater hwn â'r prif ddeintydd ac â'r nyrs arweiniol a rheolwr y practis.	Rhoddwyd y cyfanelwr siâp petryal yn ei le a rhoddwyd gwybod i'r holl staff fod angen ei gadw yn ei le bob amser.
Gwelsom nad oedd llythyrau atgyfeirio'n cael eu storio'n weithredol yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid cael cofnod cywir o atgyfeiriadau yn nodiadau'r claf fel bod unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n edrych ar nodiadau clinigol y claf yn gallu nodi hanes blaenorol ac ymyriadau clinigol.	Trafodwyd y mater â'r prif ddeintydd.	Mewngofnododd y prif ddeintydd i'r system atgyfeirio electronig a newidiodd y gosodiadau er mwyn derbyn copïau awtomatig o'r atgyfeiriadau drwy e-bost.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Wrexham Dental Works

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Nid oedd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Wrexham Dental Works

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella.					
2.						
3.						
4.						

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: Dyddiad: